# PWYLLGOR COFRESTRU A THRWYDDEDU

**(Committee Room 1/2 - Port Talbot Civic Centre)**

**Members Present:** **Dydd Llun, 30 Medi 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Councillor S.Paddison** |
| **Is-gadeiydd:** | **Councillor D.Whitelock** |
| **Cynghorwyr**: | A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, C.Edwards, S.E.Freeguard, C.J.Jones, H.Jones, J.Jones, J.Miller, R.Mizen, S.M.Penry, D.M.Peters a/ac M.Protheroe |
| **Swyddogion yn bresebbol:** | N.Chapple, G.White<br>N.Headon |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi, 2019.

2. **POLISI MASNACHU AR Y STRYD - GWELLIANT**

Gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor gymeradwyo diwygiad paragraff 6 o'r Polisi Masnachu ar y Stryd er mwyn cynnwys y canlynol:

Ni fydd angen Caniatâd Masnachu ar y Stryd pan fyddwch yn masnachu fel rhan o ffair deithiol os byddwch yn bodloni'r amodau canlynol:-

- Ystyriwyd y digwyddiad gan Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Castell-nedd Port Talbot a bod unrhyw argymhellion a gynigir gan y grŵp yn cael eu rhoi ar waith.

- Mae gennych bob caniatâd perthnasol gan y cyngor ac asiantaethau partner, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) yr Heddlu, yr Awdurdod Tân, etc.

3. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd bod angen ymdrin â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod 4 a 6 isod ar unwaith, cytunodd y Cadeirydd y gellid eu trafod yng nghyfarfod heddiw fel eitem brys yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm**

Oherwydd yr amserlen.

4. **ADRAN DRWYDDEDU - ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Rhoddwyd diweddariad i aelodau o ran gweinyddu a gorfodi materion trwyddedu ar gyfer cyfnod 2018-2019, fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cafwyd trafodaeth ynghylch trwyddedu anifeiliaid a nodwyd bod Castell-nedd Port Talbot wedi cefnogi cyflwyno Cyfraith Lucy i wahardd gwerthiannau cŵn bach gan siopau anifeiliaid a gwerthwyr masnachol trydydd parti eraill.

Rhoddodd swyddogion wybod i'r pwyllgor fod arolygiadau di-rybudd o dacsis wedi dod i ben am gyfnod byr oherwydd nad yw'r tîm Heddlu y mae'r Adran Trwyddedu'n gweithio'n agos gyda nhw ar gael, ond mae'r arolygiadau hyn wedi ailddechrau erbyn hyn.  Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn cael gwybod os bydd unrhyw broblemau ynghylch cyflawni arolygiadau o gerbydau yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion trwyddedu am eu gwaith da.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.

5. **MYNEDIAD AT GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a diffinnir ym Mharagraff 12 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

6. **<u>CAIS AM GERBYD HACKNEY A THRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT - ACHOS 1</u>**

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf oherwydd nad oedd yr ymgeisydd yn bresennol.

**CADEIRYDD**